# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GWASANAETHAU TECHNEGOL

## DYDD GWENER, 16 RHAGFYR 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
J. McEvoy, Rheolwr diogelwch y ffyrdd a traffig
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 65 - Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 9.00 - 9.20 am**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. GWRTHWYNEBIADAU I GYFYNGIAD TRAFFIG UNFFORDD YN RHODFA'R GOGLEDD A'R GOEDLAN, CAERFYRDDIN**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch gwrthwynebiadau mewn perthynas â gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig parhaol sydd ei angen er mwyn cyflwyno cyfyngiad traffig unffordd yn Rhodfa'r Gogledd a'r Goedlan, Caerfyrddin. Y rhesymau dros gyflwyno'r gorchymyn traffig unffordd oedd er mwyn creu mynediad newydd ar gyfer cerbydau i hwyluso addasu safle yr hen ysbyty sy'n adeilad rhestredig, a leolir ar ochr ogledd-orllewinol Rhodfa'r Gogledd, ac er mwyn creu system amgylchffordd i gynnal llif y traffig yn Rhodfa'r Gogledd a'r Goedlan.

Rhoddwyd gwybod bod pump o sylwadau wedi dod i law oddi wrth y cyhoedd, fel y manylwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad ynghyd ag ymatebion yr adran iddynt. Mewn ymateb i ymholiad, cafodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wybod na fyddai unrhyw leoedd parcio yn cael eu colli o ganlyniad i'r Gorchymyn.

**PENDERFYNWYD**

**2.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;**
**2.2 gweithredu'r cynigion, fel yr oeddent yn Atodiad 1 i'r adroddiad;**
**2.3 rhoi gwybod yn ffurfiol i'r gwrthwynebwyr am benderfyniad y Cyngor**

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14EG MEDI, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Medi, 2016 yn gofnod cywir.**

____________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**